

Prosiect menter ar y cyd sy'n
cael ei ddatblygu gan

RWE

y diweddaraaf o'r
ystafell newyddion

Rhagfyr 2022



Fferm Wynt Alltraeth


AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

croeso

Rhagfyr 2022



Diolch i chi am roi o'ch amser i ddarllen y newyddion diweddaraf gan dîm Awel y Môr.

Mae'r gwaith o archwilio cais y prosiect am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn mynd rhagddo'n dda, gan ein bod yn gweithio tuag at sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y buddsoddiad mwyaf mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru y degawd hwn.

Yma fe welwch y wybodaeth ddiweddaraf am y gwrandawriadau eu hunain, yn ogystal â chanlyniadau'r ymgynghoriad anffurfiol a gynhaliwyd gennym yn gynharach eleni ynghylch sut beth fyddai pecyn buddion cymunedol yn y dyfodol.

Gyda chapasiti sy'n gyfystyr â phweru dros 500,000 o gartrefi, mae Awel y Môr yn elfen allweddol o strategaeth diogelwch ynni Llywodraeth y DU, sy'n targedu defnyddio digon o ynni gwynt ar y môr i bweru pob preswylfa ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn 2030.



Fferm Wynt Alltraeth Galloper

Ail rownd o wrandawriadau arholi i ddechrau

Mae'r ail rownd o wrandawriadau cyhoeddus ar fin dechrau, gyda'r Awdurdod Archwilio wedi'i benodi gan Arolygiaeth Gynllunio'r DU, yn datgelu'r pynciau i'w trafod.

Caiff y ddau wrandawriad mater penodol eu cynnal ddydd Mercher 7 Rhagfyr a dydd Iau 8 Rhagfyr, a byddant yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â'r morlun a rhai cysylltiedig, a safle arfaethedig yr is-orsaf yn y drefn honno.

Mae pob un yn agored i'r cyhoedd naill ai wyneb yn wyneb yn Venue Cymru, neu ffrydio ar-lein, er y gofynnir i'r rheini sy'n ystyried bod yn bresennol yn gorfforol gofrestru eu dymuniad i wneud hynny gyda'r Arolygiaeth Gynllunio ymlaen llaw.

Mae'r ddau wrandawriad hyn yn dilyn rownd gyntaf, a gynhaliwyd ym mis Medi.

Yr archwiliad yw'r cyfle olaf i bartïon sydd â diddordeb gyflwyno eu safbwyntiau ar ein cynigion.

Dywedodd Paul Carter, yr Uwch Reolwr Cysyniadau: "Rydyn ni ar ganol yr archwiliad Gorchymyn Cydsyniad Datblygu nawr, gyda'r tîm yn gweithio'n galed i ateb ymholiadau'r Awdurdod Archwilio.

"Fel buddsoddiad a chyfle mor sylweddol, mae gennym hefyd aelodau o'r tîm sy'n helpu i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y gadwyn gyflenwi leol, ar gyfer sgiliau ac addysg, er mwyn sicrhau bod y rhanbarth mewn sefyllfa dda i elwa ar y manteision y mae'r prosiect yn eu cynnig."

Mae'r ddolen i ffrydio'r sesiynau ar gael ar wefan [Arolygiaeth Gynllunio'r DU](#) yma.

Ymgynghoriad yn datgelu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y pecyn buddion cymunedol.

Roedd cymorth ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth, yn ogystal â newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd naturiol ymhlith y prif flaenoriaethau a awgrymwyd yn ystod y rownd gyntaf o ymgynghori anffurfiol ar ddarpar becyn buddion cymunedol.

Cafodd dros 400 o unigolion ddweud eu dweud, a bwriedir i'r pecyn ddod i rym unwaith y bydd fferm wynt Awel y Môr yn weithredol, y rhagwelir y bydd yn 2030.

Cynhaliodd tîm y prosiect yr ymgynghoriad yn gynharach yn 2022, gan ofyn beth ddylai amcanion unrhyw becyn budd cymunedol fod, yn ogystal â sut y gellid ei weinyddu a gan bwy.

Y nod oedd llywio cynigion ar gyfer sut y gallai Awel y Môr gefnogi cymunedau orau yn y dyfodol, a beth ddylai'r egwyddorion arweiniol fod ar gyfer pecyn buddion cymunedol.

Fe wnaethoch chi ddweud wrthym y dylai unrhyw becyn buddion roi cymunedau lleol wrth ei wraidd.



Fferm Wynt Alltraeth Galloper

Roedd y mwyafrif hefyd yn cytuno'n gryf y dylai unrhyw becyn buddion gael ei arwain gan bobl leol, a chymryd agwedd strategol ar draws Gogledd Cymru drwy ystyried y cymorth arall sydd ar gael gan ynni adnewyddadwy, yn ogystal â chynnwys pobl ifanc yn benodol yn y broses o wneud penderfyniadau.

Bydd y tîm nawr yn ystyried ei gamau nesaf mewn ymateb.

Dywedodd Tamsyn Rowe, y Rheolwr Prosiect: "Roeddem yn falch iawn o dderbyn cynifer o ymatebion, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg.

"Nawr ein bod wedi dechrau sgwrs ar sut y dylai pecyn buddion cymunedol weithio, rydym yn gobeithio parhau i wrando ar farn pobl a datblygu a mireinio cynlluniau wrth i'r prosiect fynd rhagddo."



Mynychodd aelodau o dîm RWE ddigwyddiad gyrfaoedd gwyddonol, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) ar safle Coleg Llangefni Grŵp Llandrillo Menai, ynghyd â busnesau eraill yng Ngogledd Cymru, i helpu i roi syniad i bobl ifanc o'r amrywiaeth o yrfaoedd sy'n cael eu cynnig yn y sector ynni adnewyddadwy.

www.awelymor.cymru



cysylltwch

☎ 0800 197 8232

✉ awelymor@rwe.com